**DRAFFT**

**Pwyllgor Safonau Ymddygiad STD 01-01 (draft min)**

**Dyddiad:** 31ain Ionawr 2001, am 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

*Aelodau*

David Melding, Canol De Cymru (Cadeirydd)

Cynog Dafis, Canolbarth a Gorllewin Cymru

Janice Gregory, Ogwr

Brian Hancock, Islwyn

Karen Sinclair, De Clwyd

*Swyddogion*

Andrew George, Clerc y Pwyllgor

Jill Thomas, Dirprwy Glerc

David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol

*Eraill*

Richard Penn, Ymgynghorydd Annibynnol y Cynulliad ar Safonau

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau rhagarweiniol y Cadeirydd**

1. Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Thomas, Christine Humphreys a Gareth Jones.

2. Cadarnhaodd y Pwyllgor fod cofnodion y cyfarfod diwethaf (STD 09-00 min) yn gofnod cywir.

**Eitem 2: Diweddariad chwarterol ac arolwg o’r camau a gymerwyd yn deillio o STD-08-00**

Papur STD-01-01(1)

3. Nodwyd papur yr Ysgrifenyddiaeth gan y Pwyllgor.

**Eitem 3: Blaenraglen Waith y Pwyllgor**

**Papur** STD-01-01(2)

4. Nodwyd a chytunwyd ar y rhaglen a’r amserlen gysylltiedig gan y Pwyllgor.

<u>Materion yn Codi</u>

5. Roedd Aelodau’r Pwyllgor yn bryderus ynglí n â nifer cynyddol o achosion lle roedd Aelodau eraill y Cynulliad yn gofyn iddynt am gyngor ar ddefnyddio adnoddau’r Cynulliad, ac y gallai’r duedd hon gynyddu unwaith y byddai’r ymgyrchu’n dechrau ar gyfer Etholiad Cyffredinol. Mater i’r Pwyllgor Tí yw arweiniad ar faterion o’r fath.

**Gweithredu**: Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tí er mwyn egluro materion.

**Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf am Gofrestr buddiannau’r Aelodau**

Papur STD 01-01(3)

6. Nodwyd papur yr Ysgrifenyddiaeth gan y Pwyllgor.

**Eitem 5: Arweiniad diwygiedig ar Fuddiannau’r Aelodau**

Papur STD 01-01(4)

7. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig drafft i ddod â’r arweiniad diwygiedig gerbron y Cynulliad. O ganlyniad i’r ffaith y rhoddwyd yr arweiniad diwygiedig gerbron yr Aelodau ar gyfer ymgynghoriad, cytunwyd y dylai’r ddadl fod yn fer, a chytunwyd y byddai’r Cadeirydd yn agor ac yn cloi.

**Gweithredu**:- Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y Cabinet i ddwyn y cynnig gerbron ar 13 Chwefror.

**Torrodd y Pwyllgor am 10 o’r gloch am 10 munud. Ar y pwynt hwn ymddiheurodd Richard Penn a Karen Sinclair a gadael; ymunodd David Lambert â’r cyfarfod.**

**Eitem 6: Buddiannau Anuniongyrchol**

Papurau STD-01-01 (5,6, a 7)

8. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon drwy atgoffa’r aelodau bod arolwg diweddar y Pwyllgor o’r *Guidance on the Registration and Declaration of Members Interests* wedi nodi anghysondebau yn y gofynion i’r Aelodau ddatgan a chofrestru "buddiannau anuniongyrchol". Roedd y Pwyllgor wedi comisiynu’r Ysgrifenyddiaeth, ynghyd â’i ymgynghorydd cyfreithiol, David Lambert, i ystyried y mater ac adrodd yn ôl i’r Pwyllgor. Roedd Papur STD 01-01(5) a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth yn darparu trosolwg o’r mater. Gwahoddodd David Lambert i gyflwyno Papurau STD-01-01(6) a (7) a oedd yn crynhoi’r sefyllfa gyfreithiol ac yn nodi’r problemau y byddai angen i’r Pwyllgor eu hystyried.

Materion yn Codi

*Gorgyffwrdd rhwng buddiannau anuniongyrchol a buddiannau Rheol Sefydlog 4*

9. Cydnabu’r Pwyllgor fod gorgyffwrdd rhwng y buddiannau a amlinellir yn yr Atodiad i Rheol Sefydlog 4 ( y byddai sancsiynau troseddol a sifil Adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn berthnasol iddo) a’r buddiannau a amlinellir ym mharagraff 2 o Benderfyniad y Cynulliad ar 19 Mawrth 1999 nad oedd ganddynt unrhyw sancsiynau i’w cynnal. Cytunwyd y dylid diwygio’r Penderfyniad i eithrio’r buddiannau hynny y mae’n ofynnol i’w cofrestru o dan Rheol Sefydlog 4.

**Gweithredu:** David Lambert i baratoi diwygiad drafft i Benderfyniad y Cynulliad ar 19 Mai 1999.

**DRAFFT**

Mai 1999

*Cofrestru a Datgan Buddiannau Anuniongyrchol*

10. Cytunodd y Pwyllgor y dylid parhau i’w gwneud yn ofynnol i Aelodau gofrestru a datgan buddiannau anuniongyrchol ac y dylid cynnwys y rhain ym mhob un o’r categorïau perthnasol a restrir yn yr Atodiad i Rheol Sefydlog 4. Yn sgîl y sancsiynau troseddol a fyddai’n deillio o beidio â chofrestru a pheidio â datgan, byddai angen tynhau’r diffiniadau o Fuddiannau Anuniongyrchol. Cafwyd trafodaeth sylweddol yngĺ n â sut i ddiffinio pa berthnasau i Aelod y byddai angen cofrestru eu buddiannau. Cytunwyd mai partneriaid a phlant fyddai fwyaf priodol er y byddai diffiniad cadarn o "bartner" yn angenrheidiol. Gellid datgan buddiannau perthnasau

eraill yn wirfoddol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i beidio â’i gwneud yn ofynnol i Aelodau gofrestru eu buddiannau anariannol.

**Gweithredu** – David Lambert i ystyried diffiniad priodol o "bartner". Yr Ysgrifenyddiaeth i ddrafftio arweiniad diwygiedig.

**Eitem 7: Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

*Ymdrin â chë yn a gynhaliwyd*

11. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau ar gyhoeddiad diweddar ei adroddiad ar gë yn yn erbyn Alun Cairns AC. Er bod un erthygl wedi holi ynghylch y defnydd o’r weithdrefn gwyno gyflawn yn yr enghraifft hon, roedd sylw’r cyfryngau yn gyffredinol wedi cydnabod pwysigrwydd yr egwyddor dan sylw. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd archwilio ffyrdd eraill o ymdrin ag achosion "de minimus" fel rhan o’i flaenraglen waith.

*Dyddiad y Cyfarfod Nesaf*

12. Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 7 Mawrth 2001.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau**